[Rheoli Adnoddau Naturiol yng Nghymru.

Eicon y Llywodraeth Cymru.

www. Llyw. Cymru

www. Gov. wales

**Mae darluniau graffeg gwybodaeth yn cyd-fynd â'r llefaru.]**

**Llefarydd:** Mae Cymru'n enwog am ei bryniau a chymoedd glas ac am harddwch ei glanmor.

Am fynyddoedd, coedwigoedd, caeau, ac afonydd.

Mae ein tir a mor yn rhoi adnoddau i ni lle ein gallu byw, gweithio a chwarae.

Dyma sy'n rhoi i ni ein hymdeimlad o le a'n hunaniaeth, yn cyfoethogi'n bywydau ac yn sail i ddiwydiant twristiaeth ffyniannus.

**[Testun ar y sgrin:** Adnoddau Naturiol.]

**Llefarydd:** Mae ein hadnoddau naturiol yn gweithio er ein lles bob awr o bob dydd i roi bwyd, dŵr ac aer glân inni, gan brosesu ein gwastraff inni hefyd.

**[Testun ar y sgrin:** Aer. Bywyd gwyllt. Hamdden. Dŵr. Bwyd. Pren. Pysgod. Ynni.

**Testun animeiddiedig ar sgrin sy'n symud i gylch wedi'i labelu 'Adnoddau Naturiol'**: Gwastraff.]

**Llefarydd:** Maen nhw'n ein helpu i wrthsefyll effaith tywydd mawr ac yn ein helpu i addasu i hinsawdd sy'n newid.

**[Testun animeiddiedig ar sgrin:** Eiconau ar gyfer 'Seilwaith', 'Tai' a 'Swyddi' yn symud allan o gylch canol wedi'i labelu gydag 'Adnoddau Naturiol'. Blobiau bychain yn symud o 'Adnoddau Naturiol' i 'Swyddi', 'Tai' a 'Seilwaith' ac mae'r eiconau hynny'n mynd yn fwy gan awgrymu bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio i gefnogi swyddi, tai a seilwaith.]

**Llefarydd:** Ond…mae'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol yn cynyddu ac mae peryglon yn ein hwynebu.

Felly, rhaid meddwl am ffordd o weithio i ddatblygu perthynas well â'n hamgylchedd.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** mae llif y blobiau'n symud o'r eiconau ar gyfer 'swyddi', 'tai' a 'seilwaith' i'r eicon ar gyfer 'adnoddau naturiol' tra mae'r eiconau blaenorol yn mynd yn llai ac 'adnoddau naturiol' yn mynd yn fwy.]

**Llefarydd:** Trwy reoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy i gryfhau'r amgylchedd gallwn greu swyddi ac adeiladu tai a seilwaith cynaliadwy i helpu'n heconomi i lwyddo.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Testun ar arwydd yn dweud 'Yr Ateb Cydgysylltiedig' gan bwyntio at dirwedd werdd wedi'i datblygu'n rhannol.]

**Llefarydd:** Os nad awn ni ati nawr i ofalu am ein hadnoddau naturiol, bydd y canlyniadau'n ddifrifol i bawb. Rhaid taclo achosion y newid yn yr hinsawdd a gwyrdroi'r dirwiad yn ein bioamrywiaeth. Mae'r cloc yn tician ac mae'n bryd nawr inni feithrin perthynas newydd â natur, ein tir a'n dyfroedd.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Eicon y Llywodraeth Cymru.]

**Llefarydd:** Bydd y ddeddf newydd rydym yn ei chynnig yn effeithio ar bolisïau Llywodraeth Cymru ac yn dod â manteision tymor hir i bawb.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Eiconau ar gyfer 'Amgylchedd', 'Cynllunio' a 'Llesiant cenedlaethau'r dyfodol'.

Mae arwydd sy'n dweud 'Enghraifft 1. Yr Ucheldir' yn ymddangos nesaf at dirwedd werdd wedi'i datblygu'n rhannol.]

**Llefarydd:** Rydym am sicrhau bod yr ucheldir yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n cynnal ei systemau naturiol, inni allu cael y gorau ohono.

Bydd mawnogydd iach yn amsugno mwy o ddŵr gan arafu llif y dŵr sy'n creu llifogydd ac yn helpu i buro dŵr – mater pwysig iawn i bobl ac i fusnesau.

Fel ein coedwigoedd, mae mawnogydd yn dal carbon – ac yn ein helpu i arafu'r newid yn yr hinsawdd.

Ac wrth wella cyflwr ein mawnogydd a'n tiroedd gwlyb – byddan nhw'n dod yn gynefin pwysig i blanhigion, anifeiliaid ac adar.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Mae arwydd sy'n darllen 'Enghraifft 2. Coedwigoedd a Choetiroedd' yn ymddangos ac yn pwyntio at goetir.]

**Llefarydd:** Rydym yn plannu mwy o amrywiaeth o goed yn ein coedwigoedd, gan leihau effaith unrhyw glefydau coed. Yn ogystal â dal carbon, bydd y coedwigoedd hyn yn gynefin gwell i anifeiliaid ac yn hefan i bobl.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Mae arwydd sy'n darllen 'Enghraifft 3. Tir Ffermio' yn ymddangos ar arwydd sy'n pwyntio at fryniau braf.]

**Llefarydd:** Trwy ailblannu perthi a choetir, bydd llai o ddŵr glaw, pridd a llygredd yn cael eu golchi i'n hafonydd a'n nentydd.

A thrwy adael corneli ac ymylon caeau i dyfu’n wyllt, denir pryfed peillio – gan gynnwys gwenyn – sy’n dda i les yr ecosystem ac yn bwysig i gnydau masnachol fel coed ffrwythau a mêl.

Gyda llai o lygredd yn ein systemau dŵr, bydd ein moroedd a’n traethau’n lanach.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Mae ‘Enghraifft 4. Ardaloedd Trefol’ yn ymddangos ar arwydd sy’n pwyntio at ardal adeiledig.]

**Llefarydd:** Wrth inni reoli’n hucheldir a’n dyffrynnoedd yn well, fe ddylen ni weld llai o lifogydd yn ein hardaloedd trefol.

A thrwy gynllunio a chreu mwy o fannau gwyrdd, coetiroedd a lleoedd i dyfu bwyd lleol ynddyn nhw, byddwn yn agor byd newydd o gyfleoedd i bobl i gerdded, seiclo a hamddena wrth ymyl eu cartrefi a’u gwaith.

Mae coed a dail yn sugno sŵn a llygredd ac yn puro’r aer hefyd. Trwy wneud ein hardaloedd trefol yn lleoedd brafiach i fyw a gweithio ynddyn nhw, bydd pobl yn barotach i fuddsoddi ynddyn nhw.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Mae arwydd yn ymddangos sy’n dweud ‘Meithrin Perthynas Well â’n Tir’.]

**Llefarydd:** Mae angen synnwyr cyffredin wrth fynd i’r afael â’r problemau’r a’r cyfleoedd hyn, i wneud yn siŵr bod gennym Gymru decach a mwy llewyrchus.

Rhaid i bawb fod yn rhan o’r ateb hwn – er mwyn inni allu rheoli, gwella a mwynhau natur, ein heconomi a’n cymdeithas yn y tymor byr a’r tymor hir.

**[Animeiddiad ar y sgrin:** www. llyw. Cymru /rheoli adnoddau naturiol]

**Llefarydd:** I ddysgu mwy ac i gymryd rhan, ewch i wefan Llywodraeth Cymru

**[Animeiddiad ar y sgrin:** Eicon y Llywodreath Cymru. Comisiynwyd y ffilm gan Llywodraeth Cymru.]